# PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD
## 28 Chwefror 2024

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint, a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod hybrid yn Neuadd y Sir am 9.30am ddydd Mercher, 28 Chwefror 2024, gyda mynychu o bell ar gael trwy Zoom.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd), y Cynghorydd Dave Hughes (Is-gadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Jason Shallcross, Antony Wren, Sam Swash

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych), y Cynghorydd Andy Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Eraill y Cynllun), a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun)

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Elaine Williams, (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun PFB).

**YMDDIHEURIADAU:** Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Anthony Wedlake (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) yn ystod y cyfarfod.

Panel Ymgynghorol: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Sharon Carney (Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol - Aon), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa - Mercer), a Steve Turner (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa - Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Alison Murray (Ymgynghorydd Annibynnol Amgen - Aon), David Bateman (Cyfrifydd y Gronfa), Matt Grundy (Cyfrifydd Graddedig), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig) a Morgan Nancarrow (Cynorthwyydd Gweinyddol Llywodraethu – cymryd cofnodion).

### 36. DATGAN CYSYLLTIAD (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)

Gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol gan y Cadeirydd i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau parthed y Gronfa, ar wahân i'r rheiny a gofnodwyd eisoes yng nghofrestr y Gronfa.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad newydd.

### 37. COFNODION 29 TACHWEDD 2023

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd.

**PENDERFYNWYD:**

Cafodd cofnodion cyfarfod 29 Tachwedd 2023 eu derbyn a'u cymeradwyo a bydd y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 38. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU AC YMGYNGHORIADAU

Cyflwynodd Mr Latham yr adroddiad fesul paragraff i'r Pwyllgor, gan gynnwys cynnydd yn erbyn y cynllun busnes a datblygiadau cyfredol gan gynnwys Cod Ymarfer Cyffredinol newydd y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) a'r wybodaeth ddiweddaraf gan Fwrdd Ymgynghorol y Cynllun (SAB).

Eglurodd Mr Middleman o Mercer fod datganiad SAB ar warged y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol fel y disgwyliwyd ac yn gyson â sut mae strategaeth ariannu'r Gronfa Bensiynau yn mynd i'r afael â gwarged sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd cyfraniadau yn hirdymor. Mae'r datganiad yn codi gwrthdaro buddiannau posibl wrth osod cyfraddau cyfraniadau. Eglurodd drwy'r strwythur llywodraethu cryf a'r deialog gyda'r prif gyflogwyr, mae'r Gronfa yn sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn cael ei reoli'n dda a'i ystyried gan y swyddogion a'r Pwyllgor. Roedd elfennau allweddol eraill o'r datganiad yn cynnwys strategaethau buddsoddi penodol i gyflogwyr lle bo cyflogwyr yn gadael cronfeydd, a therfyniadau rhannol pan fo cyflogwyr yn diddymu rhan o'u hatebolrwydd. Mae'r materion hyn yn llai perthnasol i'r Gronfa, yn bennaf gan fod mwyafrif cyflogwyr Cronfa Bensiynau Clwyd yn gyrff sector cyhoeddus ac nid oes disgwyl iddynt adael y Gronfa. Ond, os bydd yn fater yn y dyfodol, caiff ei gyflwyno i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Nododd Mr Hibbert fod y Llywodraeth Ganolog yn anghywir i ystyried gwarged Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol fel modd o ostwng Treth y Cyngor ac fel pot o arian i'r Llywodraeth ei gyfeirio. Nododd yr iaith a ddefnyddir mewn perthynas â'r Llywodraeth yn dymuno peidio â chyfeirio cronfeydd o ran sut neu beth i fuddsoddi ynddo, ond i wneud awgrymiadau cyffredinol. Roedd yn teimlo pe byddai'r Llywodraeth yn darparu amgylchedd lle y gall buddsoddiadau dyfu, bydd y Gronfa'n eu canfod ac yn buddsoddi ynddynt lle bo'n addas.

Gofynnodd y Cyng Shallcross a yw'r 'llinell' rhwng gwarged a diffyg ariannol wedi symud i adlewyrchu maint cynyddol y pot sydd ei angen i ddarparu pensiynau ar gyfer y boblogaeth sy'n heneiddio. Cadarnhaodd Mr Middleman pan ystyrir y strategaeth ariannu ac y gosodir y cyfraniadau, mae disgwyliad oes a'r boblogaeth yn heneiddio'n cael ei ystyried i sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn ddigonol i ddiwallu'r anghenion hynny. Nododd bod cyfradd y twf mewn disgwyliad oes yn gostwng ar hyn o bryd yn seiliedig ar y data diweddaraf, a fydd yn bwynt trafod i'w ystyried yn y prisiad nesaf a bydd yn cael ei ystyried yn ddiweddarach eleni fel rhan o'r adolygiad cyllid dros dro.

Trosglwyddodd Mr Latham i Mr Turner a eglurodd y paragraff ar Gyfraith Sharia. Eglurodd Mr Turner ei bod yn ddefnyddiol cael eglurhad o'r mater gan SAB ac er y disgwylir rhagor o gyngor, mae disgwyl na fydd llawer o effaith ar fuddsoddiadau'r Gronfa. Mae'r pryderon o ran Cyfraith Sharia yn bryder ar gyfer pensiynau cyfraniadau diffiniedig yn bennaf a gellir cynnig dewisiadau buddsoddi sy'n cydymffurfio â Sharia yn y cynlluniau hynny. Ond, nid yw'r datrysiad hwn yn berthnasol i sut mae cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn buddsoddi. Bydd eglurhad gan SAB a'r farn gyfreithiol yn darparu arweiniad defnyddiol yn y maes.

Holodd Mrs McWilliam a yw Cyfraith Sharia erioed wedi'i ystyried fel rhan o ddewisiadau cronfa CGY y Gronfa, ac a ddylid ei ystyried. Nid oedd Mr Turner yn ymwybodol bod hyn wedi bod yn rhan o ystyriaethau CGY yn y gorffennol ond gellir

gwirio hynny.  Ni allai weld unrhyw reswm pam na ddylid ystyried hyn yn y dyfodol, a byddai ganddo ddiddordeb gweld a oes galw am hyn yn y Gronfa Bensiynau.

Parhaodd Mr Latham, gan dynnu sylw at sylwadau'r Gweinidog o ran gostyngiad yn nifer y cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gyda digwyddiadau o amgylch y bwrdd i'w ddisgwyl cyn gynhared â'r Pasg.  Yn y Grŵp Pob Pensiwn Seneddol fe wnaeth y Gweinidog sylw am wybodaeth a sgiliau'r Pwyllgor.    Eglurodd Mr Hibbert fod y Gweinidog Llywodraeth Leol wedi nodi nad yw'n gweld pam y dylai gwybodaeth a sgiliau'r Bwrdd fod yn fwy na rhai'r Pwyllgor.

Eglurodd Mr Latham y risgiau canlynol:

- Risg 2 yn ymwneud â llywodraethu Pwyllgor, a byddai hyn yn cael ei drafod yn y sesiwn hyfforddiant yn y prynhawn ar ôl  y cyfarfod.
- Roedd Risg 3 yn cyfeirio at wrthdaro buddiannau 'yn enwedig mewn Pwyllgor Cronfa Bensiynau', ond roedd y newid mewn statws risg a nodwyd yn y papur yn sgil gwrthdaro buddiannau posibl o ran buddsoddiadau lleol, sy'n ymwneud â Mr Latham fel Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd a Mr Ferguson fel Swyddog A151 mewn perthynas â'i rôl yn cymeradwyo buddsoddiadau lleol.  Y bwriad oedd sicrhau bod unrhyw botensial o ran gwrthdaro buddiannau yn ymwneud â buddsoddiadau lleol a allai effeithio ar gyllid Cyngor Sir y Fflint yn cael ei reoli'n briodol gan y Gronfa.

Trosglwyddodd y Cadeirydd i Ms Murray a gyflwynodd rhywfaint o hyfforddiant ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a pholisi drafft cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.  Eglurodd rhywfaint o'r cefndir yn arwain at gyflwyno canllaw Mawrth 2023 gan TPR sy'n berthnasol i Gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.  Nododd y gall profiadau bywyd amrywiol gyflwyno mwy o amrywiaeth i'r Gronfa, ond na ellir elwa o'r doniau a'r profiadau sydd gan yr unigolion hynny heb roi sylw i gydraddoldeb a chynhwysiant.  Eglurodd yr ymagwedd ar gyfer drafft y polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, gan nodi bod cyfyngiadau penodol ar gyfer Cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.  Y buddion allweddol ar gyfer Cronfeydd Pensiwn yw y gall Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant arwain at wneud penderfyniadau gwell er budd yr aelodau a'r cyflogwyr, ynghyd â gwell mewnwelediad ac empathi mewn penderfyniadau dewisol, a gwella cyfathrebu gydag aelodau a chyflogwyr.

Mae canllawiau'r rheoleiddwyr yn nodi ffyrdd ymarferol o gynorthwyo cyrff llywodraethu i wella Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.  Mae'r rhain yn cynnwys darparu hyfforddiant a pholisi penodol i'r gronfa sy'n nodi beth mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ei olygu i'r Gronfa.  Mae drafft y Polisi'n defnyddio'n ymadrodd 'mynediad cyfartal' i gydnabod efallai y bydd gwahanol unigolion yn gofyn am wahanol gefnogaeth i sicrhau tegwch.  Mae drafft y polisi'n ystyried amrywiaeth ar ffurf nodweddion gwarchodedig, ond hefyd ar ffurf nodweddion ehangach fel cefndir economaidd-gymdeithasol, profiadau bywyd, addysg ac iaith.   Yn olaf, bwriad diffiniad arfaethedig y Gronfa o gynhwysiant yw creu amgylchedd lle y gall unigolion sy'n ymwneud â rheolaeth y Gronfa gyflawni eu llawn botensial drwy gyfranogi, drwy gael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Cyflwynodd Ms Murray enghreifftiau o heriau a chryfderau o ran darparu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i'r Pwyllgor, a'r hyn sy'n berthnasol yn benodol i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a Chronfa Bensiynau Clwyd, a'r camau

nesaf a'r ystyriaethau ar gyfer y Gronfa. Cyfeiriodd hefyd at adroddiad 2023 Adran Actiwari'r Llywodraeth ar y Bwlch Pensiynau rhwng y Rhywiau ar gyfer Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a Lloegr.

Cadarnhaodd Mrs Carney y rhannwyd y polisi gyda CSFf cyn y cyfarfod a'i bod yn fodlon â'r drafft. Nododd bod CSFf yn darparu hyfforddiant tuedd anymwybodol ar gyfer gweithwyr, ac efallai bod modd rhannu'r hyfforddiant gydag aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd. Nododd hefyd y dylai mwyafrif y cyflogwyr gynhyrchu eu hadroddiadau bwlch cyflog rhwng y rhywiau eu hunain, ac awgrymodd y gellir ceisio mynediad i'r wybodaeth i fesur bwlch pensiynau'r Gronfa. Cyflwynwyd archwiliad cyflog cyfartal CSFf i'r Cyngor yr wythnos ddiwethaf, ac mae ar gael pe byddai'n ddefnyddiol i'r Gronfa.

Fel Cadeirydd y Bwrdd Pensiynau, nododd Mrs McWilliam ei bod wedi sylwi dros y blynyddoedd diwethaf, bod profiad a sgiliau Elaine Williams o weithio gyda'r henoed wedi gwella amrywiaeth y profiadau a'r wybodaeth o fewn y Bwrdd Pensiynau, yn enwedig o ran cyfathrebu. Ychwanegodd bod gwaith cadarnhaol eisoes wedi'i gyflawni o ran y strategaeth gyfathrebu a bod y Bwrdd yn teimlo bod fideo 'Deall eich Datganiad Buddion Blynyddol' yn hynod ddefnyddiol.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried a gwneud sylwadau ar y diweddariad.
b) Bod y Pwyllgor wedi adolygu a chymeradwyo'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd.

## 39. DIWEDDARIAD GWEINYDDU / CYFATHREBU PENSIYNAU

Cyflwynodd Mrs K Williams yr adroddiad fesul paragraff i'r Pwyllgor. Tynnodd sylw at y canlynol:

- Cynnydd prosiect Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol
- Prosiect McCloud a'r Tîm Cyswllt Cyflogwyr (ELT). O ran y cyflogwyr sy'n defnyddio'r gwasanaeth ELT, mae 100% o ddata McCloud wedi'i ddarparu yn awr a 54% wedi'i uwchlwytho'n llwyddiannus. O'r cyflogwyr sydd ddim yn defnyddio'r gwasanaeth, mae 78% o'r data wedi cyrraedd, a 56% wedi'i uwchlwytho. Mae McCloud yn awr yn effeithio ar brosesau mewnol o ddydd i ddydd gan fod angen gwneud gwiriadau ychwanegol, a gallai hyn effeithio ar DPA yn y dyfodol.
- Ymarferion glanhau data gan gynnwys ymarfer glanhau data cyfeiriadau, a gwiriadau bodolaeth teirblwydd ar gyfer aelodau sy'n byw dramor fel rhan o'r polisi gwrth-dwyll a llygredigaeth.
- Mae'r Gronfa'n derbyn dros 24,000 o alwadau ffôn bob blwyddyn, ac fe gynigir y dylid sefydlu desg gymorth dros y ffôn i gyfeirio aelodau at y swyddog cywir ac i fynd i'r afael â Safonau'r Gymraeg. Holodd Mrs McWilliam a yw'r ystadegau ffôn yn cynnwys galwadau i ffonau symudol. Eglurodd Mrs Williams y bydd galwadau i rifau ffôn swyddfa'n cael eu cyfrif, hyd yn oed os ydynt yn cael eu trosglwyddo i ffôn symudol drwy system Avaya. Ni fyddai galwadau i ffôn symudol yn uniongyrchol yn cael eu cyfrif yn yr ystadegau hyn, er enghraifft os yw swyddog yn gwneud galwad ffôn allanol ar eu ffôn symudol heb ddefnyddio system Avaya, gallai'r aelod ffonio'n ôl yn

defnyddio'r rhif ffôn symudol.  Ond, mae hyn yn hynod anarferol, ac mae mwyafrif y galwadau ffôn yn dod drwy system Avaya.

- Mae'r Gronfa'n anfon adroddiadau misol i gyflogwyr yn eu hysbysu ynglŷn â'u perfformiad mewn perthynas â'r 3 prif Ddangosydd Perfformiad Allweddol.  Yn wreiddiol, bwriad yr adroddiadau oedd hysbysu a chefnogi'r cyflogwyr i sicrhau bod adnoddau yn eu lle ac i wella prosesau, ond codwyd pryder mewn archwiliad na wnaed cynnydd ac argymell y dylai'r Gronfa ystyried gweithredu'r polisi uwchgyfeirio ar gyfer cyflogwyr sy'n methu targedau DPA yn barhaus.  Mae'n well gan y Gronfa gynorthwyo cyflogwyr i nodi meysydd i'w gwella a rhannu arferion da yn hytrach na chyflwyno dirwyon.  Mae'r polisi uwchgyfeirio'n cael ei ddiwygio i adlewyrchu hynny, a rhan o'r adolygiad yw diweddaru DPA yn y strategaeth weinyddu.
- Ystadegau llwyth gwaith, a'r wybodaeth ddiweddaraf o ran adnoddau a staffio.
- Y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyfathrebu gan gynnwys sesiynau ymgysylltu â chyflogwyr.  Bydd adborth cyflogwyr ar fformat y cyfarfod blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ar ôl casglu'r wybodaeth.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried a gwneud sylwadau ar y diweddariad.
b) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r Strategaeth Gweinyddu Pensiynau fel y nodwyd ym mharagraff 1.04 ac Atodiad 4 a fydd yn cynnwys y dangosyddion perfformiad allweddol newydd.

## 40. CYFARFODYDD Y DYFODOL

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor nodi'r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol:

- Dydd Mercher 20 Mawrth 2024
- Dydd Mercher 19 Mehefin 2024

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd gan y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gymryd rhan. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 20 Mawrth.  Daeth y cyfarfod i ben am 11:05am.

……………………………………

**Y Cadeirydd**